

Ffioedd Cyrsiau 2019/20

Codir ffioedd cyrsiau fesul blwyddyn eich rhaglen gradd a bydd cynnydd o 3% bob blwyddyn yn unol â'r gyfradd chwyddiant.

- Y gost am 60 o gredydau yn 2019/20 fydd £2,000

Pa gymorth ariannol sydd ar gael?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno pecyn cymorth newydd i helpu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i dalu costau astudio'n rhan-amser. Bydd gan fyfyrwyr newydd sy'n dechrau eu cwrs yn 2019/20 hawl i Fenthyciad Ffioedd Dysgu yn ogystal â Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a Benthyciad Cynhaliaeth:

- **Benthyciad Ffioedd Dysgu:** mae Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael i dalu cost **lawn** ffioedd eich cwrs rhan-amser (caiff y benthyciad ei dalu'n uniongyrchol i'r Brifysgol)
- **Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC):** grant newydd sy'n destun prawf modd i helpu gyda chostau byw, megis llyfrau, bwyd, rhent, teithio a chostau tebyg eraill wrth i chi astudio. Uchafswm y grant sydd ar gael ar gyfer astudio 60 o gredydau yw £3,000 a bydd cyfanswm y grant a gaiff ei ddyfarnu i chi yn seiliedig ar nifer y credydau rydych yn eu hastudio ac incwm eich aelwyd.
- **Benthyciad Cynhaliaeth:** gallwch wneud cais hefyd am fenthyciad cynhaliaeth i ychwanegu at eich GDLIC, hyd at gyfanswm cyffredinol o **£3,407.50**

Edrychwch ar yr enghreifftiau isod o hawliau i GDLIC/Benthyciad Cynhaliaeth ar sail incwm aelwyd ac astudio 60 o gredydau (ewch i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i weld yr holl gyfraddau ar sail incwm aelwyd a nifer credydau).

Nifer y credydau	Incwm yr Aelwyd	GDLIC	Benthyciad Cynhaliaeth	Cyfanswm
60	£25,000 neu lai	£3,000	£407.50	£3,407.50
60	£45,000	£1,538.50	£1,869	£3,407.50
60	£59,200 neu fwy	£500	£2,907.50	£3,407.50

- Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyfrifo cyfanswm y GDLIC mae gennych hawl iddo ac yn dyfarnu'r gweddill ar ffurf Benthyciad Cynhaliaeth.
- Caiff y GDLIC a'r Benthyciad Cynhaliaeth eu talu'n uniongyrchol i chi fesul tri rhandaliad (fel arfer pythefnos ar ôl dechrau pob tymor).
- Nid oes angen ad-dalu GDLIC oni bai eich bod yn gadael y cwrs yn gynnar

neu'n derbyn gordaliad.

- Bydd angen i chi ad-dalu eich Benthyciad Ffioedd Dysgu a'ch Benthyciad Cynhaliaeth; byddwch yn dechrau ad-dalu yn y mis Ebrill bedair blynedd ar ôl dechrau'ch cwrs ac os yw'ch incwm dros y trothwy ad-dalu (£25,725 y flwyddyn ar hyn o bryd) neu'r mis Ebrill ar ôl i chi orffen y cwrs os byddwch yn gadael yn gynnar.
- Bydd gan fyfyrwyr sydd â statws sefydlog ac sydd fel arfer yn byw yn Nghymru, hawl i'r pecyn cymorth newydd hefyd.
- Bydd gan fyfyrwyr yr UE hawl i'r Benthyciad Ffioedd Dysgu yn unig.
- Nid oes uchafswm oedran ar gyfer y Benthyciad Ffioedd Dysgu na Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, ond mae'r Benthyciad Cynhaliaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n 60 oed neu'n iau yn unig.
- Os oes gennych radd anrhydedd o'r DU eisoes, fel arfer ni fydd gennych hawl i gyllid myfyrwyr ar gyfer rhaglen addysg uwch arall.

Os nad ydych am gael Benthyciad Ffioedd Dysgu, cewch dalu'ch ffioedd fesul tri rhandaliad cyfartal, drwy greu Debyd Uniongyrchol adeg cofrestru (dyddiadau talu'r rhandaliadau yw canol mis Tachwedd 2019, mis Chwefror 2020 a mis Mai 2020), neu gallwch dalu'r ffioedd llawn wrth gofrestru.

Sut mae gwneud cais?

- Gallwch wneud cais ar-lein drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru (cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk) o fis Mehefin 2019.

Cymorth ychwanegol ar gyfer myfyrwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd:

- Os ydych yn astudio 60 o gredydau, efallai y bydd gennych hawl i gymorth ariannol ychwanegol os oes gennych blant, oedolyn sy'n dibynnu arnoch neu anabledd (i gael Lwfans Dysgu i'r Anabl, rhaid eich bod yn astudio o leiaf 30 o gredydau). Mae'r cymorth ychwanegol hwn yn cynnwys:-
 - Grant Gofal Plant. (CCG)
 - Lwfans Dysgu Rhieni (PLA)
 - Grant Oedolion Dibynnol (ADG)
 - Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

Dylech gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru (cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk) am ragor o wybodaeth a chyngor ar y grantiau a'r lwfansau uchod.

- Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn cynnig **bwsariaeth ffioedd** gwerth hyd at 50% o gyfanswm y ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n eu hariannu eu

hunain nad oes ganddynt hawl i dderbyn Benthyciad Ffioedd Dysgu na chymorth grant rhan-amser. Mae ffurflenni cais ar gael gan y Ganolfan Addysg Barhaus i Oedolion drwy Janice Brown.

- **Mae Cronfa Cyfle Prifysgol Abertawe** ar gael i fyfyrwyr sydd ag incwm isel ac mae angen cymorth ariannol ychwanegol arnynt ar gyfer eu cwrs. Cysylltwch ag Arian@BywydCampws (money.campuslife@abertawe.ac.uk) neu 01792 606699 am ragor o wybodaeth.

PWYSIG: Os ydych yn fyfyrwr rhyngwladol, eich Ffioedd Dysgu fydd £7,050 am bob 60 o gredydau. Ni fyddwch yn gymwys am y pecyn cymorth ariannol newydd a gall y cymorth sydd ar gael o ffynonellau eraill fod yn gyfyngedig.

Anogir yr holl fyfyrwyr sy'n astudio am radd ran-amser i gwblhau eu hastudiaethau o fewn chwe blynedd i ddechrau'r cwrs, fel arfer drwy gwblhau 60 o gredydau'r flwyddyn.

I gael manylion pellach am yr holl faterion uchod, cysylltwch â Mrs Janice Brown ar 01792 295499.